


Astudiaeth Achos: Peiriannydd Electroneg - Ben

Beth ydych chi'n ei wneud?

Mae fy nghwmni yn cynhyrchu cydrannau electronig ar gyfer awyrennau a chymwysiadau awyrfodol.

Rwy'n sicrhau bod dyluniadau a chynnyrch y cwmni'n bodloni safonau diogelwch caeth. Os wyf yn canfod problem, rwy'n gwneud nifer o brofion i ganfod yr achos.

Yna rwy'n sicrhau bod y camau angenrheidiol yn cael eu cymryd i gywiro'r broblem. Gallai hyn gynnwys newid dyluniad y rhan neu'r broses gynhyrchu.



Beth yw'ch cefndir?

Astudiais beirianneg trydanol ac electronig yn y brifysgol. Ar ôl graddio o'r brifysgol, gweithiais ym maes dylunio a datblygu yn bennaf.

Fodd bynnag, ers hynny rwyf wedi penderfynu canolbwyntio'n fwy ar reoli ansawdd - hynny yw, sicrhau bod gweithfa gynhyrchu yn creu cynnyrch sydd yn bodloni safon ansawdd benodol.

Pa nodweddion sydd eu hangen i fod yn llwyddiannus yn eich swydd chi?

I ddechrau, mae'n rhaid bod peiriannydd electroneg yn gallu meddwl yn rhesymegol. Mae peirianneg yn ymwneud â datrys problemau. Mae'n rhaid eich bod yn gallu cymhwyso sgiliau datrys problemau i broblemau mathemategol, p'un ag ydynt yn ddamcaniaethol neu'n ymarferol.

Yn ail, mae'n rhaid i beiriannydd electroneg feddu ar y sgiliau technegol i wneud gwaith da. Mae hyn yn golygu cymhwyso popeth yr ydych yn ei ddysgu yn y brifysgol i sefyllfaoedd ymarferol, bob dydd.

Mae hyn yn cynnwys defnyddio ffiseg sylfaenol, dealltwriaeth o gylchedwaith trydanol a dealltwriaeth o dechnoleg yn gyffredinol.

Hefyd, mae'n rhaid i beiriannydd electroneg dalu sylw i fanylion. Yn y math yma o waith, gall pethau bach gael effaith ddifrifol iawn. Gall camgyfrif achosi problemau mecanyddol mawr a chostio llawer o arian i'r cwmni.

Pa swyddi eraill allech chi ei wneud gan ddefnyddio'r sgiliau o'r swydd hon?

Am fod peirianwyr electroneg yn dibynnu cymaint ar gyfrifiaduron fel offeryn safonol y diwydiant, y llwybr naturiol yw datblygu meddalwedd ar gyfer prosiectau peirianneg penodol.

Gall peirianwyr electroneg hefyd gymhwyso eu sgiliau i swyddi ymgynghorol neu reoli mewn meysydd peirianneg eraill.

Pa newidiadau fydd yn y dyfodol?

Rwy'n credu y bydd mwy o alw am beirianwyr electroneg yn y dyfodol. Wrth i dechnoleg chwarae fwy o ran yn ein bywydau, bydd yr angen am beirianwyr yn cynyddu.

Gwaith peiriannwr yw symleiddio technoleg i'r cyhoedd, a chyda mwy o arloesi technolegol, bydd ein gwasanaethau yn dod yn fwy ac yn fwy angenrheidiol.

Oes nifer o gyfleoedd i fynd i mewn i'r yrfa hon?

Mae galw mawr ym maes peirianneg trydanol ac electronig.

Beth ydych chi'n ei hoffi am eich swydd?

Y peth gorau am fod yn beiriannydd yw datrys problemau. Er enghraifft, roedd gennym gynnyrch oedd yn chwythu i fyny pan oedd yn cael ei brofi. Fe wnes i brofion a dylunio arbrofion i ganfod beth oedd y broblem ac yna'i drwsio.

Peth arall yr wyf yn ei hoffi'n fawr yw'r dysgu parhaus. Bob tro y byddwch yn gweithio ar gynnyrch newydd neu broses newydd, byddwch yn dysgu rhywbeth newydd; mae'n wych.

Hefyd, rydych yn gweithio gyda llawer o bobl. Er enghraifft, bydd y rhan fwyaf o'ch gwaith mewn timau gyda pheirianwyr eraill neu bobl marchnata a gwerthu. Ac yn aml byddwch yn siarad â chwsmeriaid fydd angen eich cyngor technegol i'w helpu i ddatrys eu problemau.

Beth nad ydych chi'n ei hoffi am eich swydd?

Nid oes llawer nad wyf yn ei hoffi am yr yrfa hon. Gall terfynau amser fod yn straenus ond yn gyffredinol rwy'n mwynhau'r cyffro a ddaw yn sgil cyflawni canlyniadau o dan bwysau.

Pa gyngor fyddwch chi'n ei rhoi i rywun sydd â diddordeb yn eich gyrfa chi?

Mae gwybodaeth a sgiliau mathemateg a gwyddoniaeth yn hanfodol, ond peidiwch esgeuluso eich sgiliau cyfathrebu, yn cynnwys eich gallu i ysgrifennu adroddiadau clir.

Diwrnod ym mywyd

9:00 am - 10:00 am

Gweithio ar brosiect: dylunio, cynllunio.

10:00 am - 11:00 am

Cyfarfod â rheolwr i ddatblygu cynnig am gynnyrch newydd.

11:00 am - 12:00 pm

Gweithio ar y cynnig: sefydlu ymarferoldeb, cost gyffredinol a gofynion cynhyrchu.

12:00 pm - 1:00 pm

Cael cinio.

1:00 pm - 2:00 pm

Ymchwilio i alwad frys am broblem ar y llawr cynhyrchu.

2:00 pm - 3:00 pm

Gweithredu ateb tymor byr i gadw'r cynhyrchiant i fynd.

3:00 pm - 4:00 pm

Cyfarfod â gwerthwr; penderfynu a ddylid prynu cynnyrch ar gyfer y cwmni neu beidio.

4:00 pm - 5:00 pm

Gweithio ar broblem gynhyrchu.